Amrywiad i benodiad Icosa Water Services Limited i gynnwys Heritage Way, Brymbo

Ar 1 Awst 2022, dechreuodd Ofwat ymgynghoriad ar gynnig i amrywio penodiad Icosa Water Services Limited ("Icosa Water") i ddod yn ddarparwr dŵr ar gyfer datblygiad yn ardal cyflenwi dŵr Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig ("Hafren Dyfrdwy") o'r enw Heritage Way, Brymbo ("y Safle"). Roedd manylion y cais a'n hasesiad ohono wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Awst 2022. Ni chawsom unrhyw ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Byddwn ond yn gwneud penodiad neu amrywiad os daw ein hasesiad i'r casgliad bod y cais yn bodloni'r maen prawf y mae wedi'i wneud oddi tano; na fydd cwsmeriaid neu gwsmeriaid y dyfodol ar y safle yn waeth eu byd na phe bai'r safle wedi'i wasanaethu gan y penodai presennol; ac a fydd yr ymgeisydd yn gallu ariannu'r gwaith priodol o gyflawni ei swyddogaethau fel cwmni dŵr a/neu garthffosiaeth. Fel y nodir yn ein hymgynghoriad, rydym yn fodlon mai dyma'r achos. Nid yw'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad wedi newid y farn honno.

Ar ôl asesu cais Icosa Water ac ar ôl ystyried yr ymatebion a gawsom i'n hymgynghoriad, penderfynasom ganiatáu amrywiad i ardal penodi Icosa Water er mwyn caniatáu iddo wasanaethu'r Safle ar gyfer gwasanaethau dŵr. Daeth yr amrywiad hwn i rym ar 2 Medi 2022.

Mae'r Map Safle ar gyfer yr amrywiad i'w weld yn Adran 2 y ddogfen hon.

Mae'r Hysbysiad Amrywio sy'n gwneud yr amrywiad yn gyfreithiol i'w weld yn Adran 3 y ddogfen hon.

1. Ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad

Ni chawsom unrhyw ymatebion i'n hymgynghoriad ar y cais hwn.

Gwnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod y cam cyn-ymgynghori ar gyfer y cais hwn. Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn fodlon i ni symud ymlaen i ymgynghoriad ac ni roddodd unrhyw sylwadau pellach yn ystod yr ymgynghoriad.

2. Map o'r Safle

(c) Crown copyright, All rights reserved. 2021. License number 0100031673

0m 125m
Scale 1:1250

PLAN REFERRED TO IN THE VARIATION OF THE APPOINTMENTS OF ICOSA WATER SERVICES LIMITED AND HAFREN DYFRDWY CYFYNGEDIG AS WATER UNDERTAKERS, MADE BY THE WATER SERVICES REGULATION AUTHORITY ON .....
1 September 2022

tds
Technical & Development Services (Southern) Ltd
Millwood House, 54 Queen Street
Horsham, West Sussex, RH13 5AD
Tel 01403 276 500

Title:
HERITAGE WAY, BRYMBO, LL11 5TF
WATER AREA SERVICE PLAN
SCALE 1:1250

Drawing Number: 21-030-WSA-01
Rev: B

I:\21-030 Heritage Way\TDS Drawings\Dwgs\21-030-WSA-01.dwg TDS 22/12/2021 13:48:06

3. Hysbysiad Amrywiad

AWDURDOD RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU DŴR

DEDDF DIWYDIANT DŴR 1991, ADRAN 6 I 9

Amrywio Penodiadau Icosa Water Services Limited a Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig fel Ymgymerwyr Dŵr

Gwnaed ar 1 Medi 2022

Yn dod i rym ar 2 Medi 2022.

1. Mae gan Icosa Water Services Limited ("Icosa Water") a Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig ("Hafren Dyfrdwy") Benodiadau fel ymgymerwyr dŵr ar gyfer eu hardaloedd priodol ("y Penodiadau").[1] Mae'r ardaloedd y mae Penodiadau Icosa Water a Hafren Dyfrdwy fel ymgymerwyr dŵr yn berthnasol iddynt ("Ardal Cyflenwi Dŵr") wedi'u nodi yn eu Hofferynnau Penodi.

2. Mae'r safle a elwir yn Heritage Way, Brymbo yn Wrecsam, Cymru, a ddangosir ag ymyl coch ar y cynllun sydd wedi'i atodi wrth yr amrywiad hwn, ("y Safle") o fewn Ardal Cyflenwi Dŵr Hafren Dyfrdwy. Mae'r Safle yn cael ei ddatblygu gan Taylor Wimpey UK Limited.

3. Mae Icosa Water wedi gwneud cais o dan adran 7(4)(b) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ("y Ddeddf") am amrywiad i'w Benodiad fel ymgymerwr dŵr i gynnwys y Safle ac am amrywiad canlyniadol i Benodiad Hafren Dyfrdwy i eithrio'r Safle.

4. Ar 27 Mehefin 1995, awdurdododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn gweithredu ar y cyd ac yn unol ag adrannau 6(1) a 7(2) y Ddeddf, y Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Dŵr[2] i wneud amrywiadau fel y rheini a gynhwysir ym mharagraff 5 isod. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, fel sy'n ofynnol gan adran 8 y Ddeddf, mae'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr wedi penderfynu y dylai ganiatáu cais Icosa Water.

5. Felly, fel y darperir gan adrannau 7(2) a 7(4)(b) y Ddeddf, a gyda chytundeb Taylor Wimpey UK Limited, mae'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn amrywio —

   (a) penodiad Icosa Water fel ymgymerwr dŵr fel bod y Safle wedi'i gynnwys yn Ardal Cyflenwi Dŵr Icosa Water; a

[1] Gwnaed penodiad gwreiddiol Hafren Dyfrdwy fel ymgymerwr dŵr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd o dan adrannau 11 a 14 o Ddeddf Dŵr 1989, sydd bellach wedi'i disodli gan adrannau 6 ac 11 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Gwnaed penodiad gwreiddiol Icosa Water fel ymgymerwr dŵr gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 6 ac 11 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.
[2] O 1 Ebrill 2006 trosglwyddwyd swyddogaethau Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Dŵr i'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr yn unol ag adran 36 Deddf Dŵr 2003 ac Atodlen 3 iddi.

(b) phenodiad Hafren Dyfrdwy fel ymgymerwr dŵr fel bod y Safle wedi'i eithrio o Ardal Cyflenwi Dŵr Hafren Dyfrdwy.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr



Sally Irgin
Cyfarwyddwr Gorfodaeth